**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**
**Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd yn Yr Hen Eglwys Santes Fair, Tremadog,**
**ar 25 Mehefin 2013 o 9.00 a.m. hyd 11.30 a.m.**

**Yn Bresennol:**

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Siân Gwenllian (Addysg)
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Adnoddau)

**Penaethiaid Ysgolion :** Mr Gwyn Howells (Ysgol y Gelli), Mrs Sianelen Pleming (Ysgol Llanaelhaearn), Mrs Iona Jones (Ysgol Bro Cynfal/Edmwnd Prys), Mrs Esme Spencer (Ysgol Baladeulyn), Mrs Menna Wynne Pugh (Ysgol Penybryn, Tywyn) a Mrs Donna Rees Roberts (Ysgol Pendalar/Hafod Lon).

**Llywodraethwyr:** Mr Godfrey Northam (Sector Cynradd)
Mr Gwynne Pierce (Sector Cynradd)

**Swyddogion:** Mr Dewi Jones (Pennaeth Addysg)
Mr Hefin Owen (Rheolwr Cyllid Datblygu)
Mr Owen Owens (Uwch Reolwr Addysg)
Mrs Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Mr Harry Thomas (Prif Weithredwr), Mr Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Mr Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Mr Vaughan Williams (Ysgol Syr Hugh Owen), Mr Emyr Hughes (Ysgol Dyffryn Nantlle), Mr Dylan Roberts (Ysgol Cymerau), Parchedig Robert Townsend (Ysgolion Eglwys).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol Mr Godfrey Northam yn Gadeirydd i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion am y flwyddyn 2013/14.**

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Siân Gwenllian yn Is-gadeirydd i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion am y flwyddyn 2013/14.**

3. **CROESO**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mrs Donna Rees Roberts, Pennaeth Ysgolion Pendalar a Hafod Lon, i'w chyfarfod cyntaf o'r Fforwm fel olynydd i Mr Ieuan Roberts.

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Mr Hefin Owen, Rheolwr Cyllid Datblygu, mewn perthynas â materion yn ymwneud ag Ysgol Syr Hugh Owen oherwydd bod ei wraig yn Gadeirydd Corff Llywodraethol yr ysgol honno.

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2013 fel rhai cywir.

**6. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**(a) Eitem 3 (a) – Adolygu Fformiwla Uwchradd**

Adroddodd y Rheolwr Cyllid Datblygu y bydd cyfarfod o'r Grŵp Adolygu Fformiwla Uwchradd yn cael ei drefnu yn fuan, yn ddelfrydol cyn diwedd y tymor hwn, neu'n gynnar ddechrau'r tymor nesaf.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Eitem 5 - Cyllido Ysgolion Arbennig**

(i) Adroddodd y Pennaeth Addysg bod penderfyniad y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn ei gyfarfod diwethaf wedi derbyn sêl bendith Cabinet y Cyngor i fuddsoddi arian ychwanegol i Ysgol Pendalar ac Ysgol Hafon Lon.

(ii) Adroddodd Pennaeth Ysgol Pendalar/Ysgol Hafod Lon bod cynlluniau yn mynd rhagddynt gyda'r Cyngor wedi adnabod safle i ddatblygu Canolfan Ragoriaeth Addysg Arbennig o'r radd flaenaf i'r Sir gydag arian wedi ei glustnodi drwy adnoddau ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Y cam nesaf ydoedd darparu cynllun busnes.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod**

**(c) Eitem 6 – Dosbarthu Arbedion Trefniadaeth Ysgolion**

Adroddodd y Pennaeth Addysg bod Cabinet y Cyngor wedi cymeradwyo Opsiwn 2 yn unol ag argymhelliad y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn ei gyfarfod diwethaf sef i

"ddosbarthu £200,000 o'r arbedion ym maes ad-drefnu ysgolion yn nalgylchoedd Tywyn a'r Berwyn sy'n weithredol o 1 Medi 2013 i'r 98 ysgol gynradd fydd yng Ngwynedd ar y pryd fel a ganlyn:

(i) Dosbarthu £98,000 trwy ddileu'r llinell "Cynllun Cefnogi Dosbarthiadau Mawr CA2" fydd yn dosbarthu £1,000 i bob ysgol er mwyn dileu'r cyfraniad (Ni fydd hyn yn lleihau'r gyllideb cefnogi dosbarthiadau mawr CA2)
(ii) Dosbarthu £102,000 ar sail nifer disgyblion a deilynga ginio am ddim (trwy'r pennawd Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Amddifadedd)"

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(ch) Eitem 7 – Adolygiad o'r Fformiwla Dyrannu Ysgolion Cynradd**

(i) Adroddodd yr Uwch Reolwr Addysg bod y Grŵp Tasg wedi rhoi ystyriaeth i faterion yn deillio o ymgynghoriad ar adolygiad o'r fformiwla dyrannu ysgolion cynradd a bod y materion isod yn derbyn sylw pellach:

(a) Amddifadedd - os am gryfhau'r elfen amddifadedd o fewn y fformiwla dylid derbyn adnoddau ychwanegol o ba bynnag ffynonellau sydd ar gael megis arbedion trefniadaeth ysgolion.
(b) Cynnwys Penawdau Cymorthyddion a Lwfansau Athrawon ar wahân - cytunwyd i ymchwilio ymhellach gyda Mr John Roberts wedi cytuno i wneud y gwaith
(c) Amser Goruchwyliaeth - trafodir amrediad o ffyrdd gwahanol yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Tasg
(d) Grant Cyfnod Sylfaen – cyflwynir modelau gwahanol.

(ii) Mewn ymateb i'r uchod, nododd Aelod Cabinet Addysg mai'r flaenoriaeth ydoedd cefnogi disgyblion bregus ond ni ragwelai y byddai adnoddau ariannol ychwanegol ar gael. Diddorol ydoedd nodi nad oedd gan y Grŵp Tasg farn ar sut i leihau balansau ac oni ellir defnyddio'r balansau ar gyfer cryfhau anghenion amddifadedd.

(iii) Nododd Pennaeth bod y Grŵp Tasg yn teimlo nad ei swyddogaeth ydoedd ymdrin â balansau.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(d) Eitem 10 – Cytundeb Lefel Gwasanaeth GwE**

(i) Nododd y Pennaeth Addysg ei bryder nad oedd ysgolion cynradd yn barod i arwyddo Cytundeb Lefel Gwasanaeth GwE fel argymhellwyd yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm Cyllideb Ysgolion a'r GYDCA. Atgoffwyd Aelodau'r Fforwm bod y cytundeb cyfwerth £250,000 ac os nad yw ysgolion yn cytuno i ymrwymo byddai'n ofynnol i'r Awdurdod adennill yr arian allan o gyllideb ysgolion flwyddyn nesaf. Deallir bod dau awdurdod yn gweithredu drwy gadw'r gyllideb gwella ysgolion yn ganolog.

(ii) Ychwanegodd y Cadeirydd fod peth pryder yn y sector Uwchradd yn ogystal.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**7. CYFRIFON TERFYNOL 2012/13**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Addysg yn amlinellu cyfrifon ynghyd a sylwadau ar y balansau a'r drefn fonitro.

(a) Cyfeiriodd y Rheolwr Cyllid Datblygu at y **drefn fonitro** gan nodi y gofynnwyd i ysgolion sefydlu cyllidebau erbyn diwedd mis Mai ac wrth wneud hynny maent yn datgan eu bod yn ymrwymo £1,953,915 o falansau wrth sefydlu'r gyllideb, sy'n

arwain at amcan cychwynnol bod balansau yn lleihau i £2,414,521 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, nodwyd bod gwir sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn gyllidol yn dangos balansau o £3,813,317 sef £1,398,796 yn fwy na'r amcangyfrif. Ychwanegwyd bod hyn yn batrwm hanesyddol ac mai priodol ydoedd canfod a deall y rhesymau dros y cynnydd ac i'r perwyl hwn targedwyd rhai ysgolion fel bo modd cydweithio â hwy gan adrodd yn ôl ar y canfyddiadau yng nghyfarfod nesaf y Fforwm ym mis Tachwedd 2013.

(b) O safbwynt y **balansau**, cyfeiriwyd at y drefn weithredu sef bod y ddeddfwriaeth Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 yn rhoi grym i awdurdod pan fo gwarged dros y trothwy o £50,000 yn y sector cynradd neu £100,000 yn y sector uwchradd ac arbennig. Atgoffwyd yr Aelodau o benderfyniadau'r Fforwm Cyllideb a Bwrdd y Cyngor i weithredu uwchben y trothwy £50,000/£100,000 a defnyddio canran 8% o'r dyraniad neu pa bynnag un sydd fwyaf. Bwriedir targedu rhai ysgolion er mwyn canfod y rhesymau dros gynnydd mewn balansau gyda'r bwriad o adrodd yn ôl i'r Fforwm yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd. Yn y cyfamser hefyd hyderir y derbynnir barn gyfreithiol ynglŷn â'r drefn gweithredu a'r ddeddfwriaeth. Cysylltwyd hefyd ag awdurdodau eraill i ganfod sut y gweithredant a chyfeiriwyd yn benodol at Gyngor Wrecsam sydd yn gweithredu tu allan i'r ddeddfwriaeth gyda phob ysgol wedi tanysgrifio i gadw balansau hyd at drothwy o 5%.

Awgrymwyd i'r Fforwm ystyried adolygu'r penderfyniad blaenorol ynglŷn â'r canran o 8% a'i ostwng i 5%.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(i) deallwyd bod un ysgol uwchradd yn gweithredu ar 2.5% ac yn ceisio cadw'r balansau rhwng 2.5% – 5%
(ii) yng nghyd-destun sefyllfa ariannol gyffredinol, bod rhagolygon ariannol i awdurdodau Cymru yn eithaf trychinebus ac y byddai'n rhaid ystyried newid trefniadau o sut i gynnal gwasanaethau'r Cyngor. Teimlai'r Aelod Cabinet Cyllid na fyddai cydymdeimlad gydag ysgolion sy'n cadw balansau dros hicyn penodol ac y byddai'n rhaid i awdurdodau gymryd camau gweithredu.
(iii) Mewn ymateb i'r uchod, esboniodd y Rheolwr Cyllid Datblygu na chaiff yr awdurdod weithredu ar falansau o dan £50,000/£100,000 yn unol â'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, pe byddai'r Fforwm yn penderfynu gweithredu ar sail hicyn o 5% (yn lle'r £50k/£100k sydd yn y Rheoliadau), byddai'n rhaid i bob ysgol danysgrifio i hyn er mwyn gallu ei weithredu.
(iv) Nodwyd pwysigrwydd i ysgolion gwblhau'r holiadur yn gywir ynglŷn ag unrhyw falansau sydd dros y trothwy. Teimlwyd bod hyn yn arfer da.
(v) Cafwyd enghreifftiau gan Benaethiaid unigol o arbedion wedi dyblu hyd yn oed ar ôl gweithredu trefniadau gormodedd.
(vi) Mewn ymateb i'r uchod, addawodd y Rheolwr Cyllid Datblygu y byddai'n gwneud ymchwil i'r ysgolion penodol sef Ysgol Y Gelli ac Ysgolion Bro Cynfal/Edmwnd Prys.
(vii) Yng nghyswllt Ysgol Penybryn, Tywyn, eglurodd y Pennaeth na fyddai modd gwario'r balans oherwydd bod yr arian wedi ei gynllunio a'i angen ar gyfer trefniadaeth ad-drefnu yn yr ardal
(viii) Mewn ymateb, esboniodd y Rheolwr Cyllid Datblygu os oes gan ysgolion resymau dilys dros ddefnydd i'r balansau yna ni fyddai'r Awdurdod yn cymryd arian yn ôl
(ix) Nad oedd y trefniadau presennol yn gynaliadwy ac fe fyddai'n rhaid newid y drefn

(x) Gofynnwyd a fyddai modd i ysgolion dderbyn rhagolygon 3 blynedd yn gynharach.

Yn dilyn pleidlais.

**Penderfynwyd: Yn ystod y cyfnod nesaf, gofyn i'r Rheolwr Cyllid Datblygu**

**(a) Rhoi arweiniad i ysgolion ynglŷn â balansau sydd dros drothwy o 5%**
**(b) Ddefnyddio'r grym o weithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth i gymryd arian yn ôl pan fo gwarged gan ysgolion ar ôl gosod cyllideb dros y trothwy £50,000/£100,000**
**(c) Ymgynghori'n ffurfiol gydag ysgolion ar gyfer ymrwymo i sefydlu trothwy o 5% neu £50k/£100k pa un bynnag yw'r lleiaf.**

**8. GRANT EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION, GRANT AMDDIFADEDD DISGYBLION, GRANT Y GYMRAEG MEWN ADDYSG A GRANT YSGOLION UWCHRADD BAND 4/5**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Addysg yn amlinellu trefniadau a symiau cyllidol datganoli arian y grantiau uchod a'r atebolrwydd ynghlwm â hwy.

Adroddodd y Pennaeth Addysg bod arweiniad Llywodraeth Cymru wedi ei dderbyn yn aruthrol o hwyr ynglŷn â'r grantiau. Tywyswyd yr Aelodau drwy gynnwys yr adroddiad gan nodi y bydd yn ofynnol i ysgolion hawlio'r grantiau drwy gwblhau'r ffurflenni priodol a gyflwynir iddynt yn ystod yr wythnos 1-5 Gorffennaf.

(a) GEY - nodwyd mai grant ar gyfer sicrhau hyfforddiant ar gyfer rhifedd, llythrennedd a chau'r bwlch fydd hwn. Gofynnir i'r awdurdod ddatganoli o leiaf 75% o'r grant eleni. Tynnwyd sylw bod cryn newid yn y gofynion a'r lefel atebolrwydd eleni a rhaid i ysgolion adnabod eu hanghenion e.e. hyfforddiant arbenigol o fewn dalgylch. Cynigir y grant ar sail niferoedd disgyblion (60%), niferoedd staff (20%) a'r ganran prydau ysgol am ddim ar gyfer pob sector (20%). Gofynnir i ysgolion gyflwyno tystiolaeth o'r gwariant ynghyd ag effaith unrhyw wariant ar gyflawniadau'r disgyblion.

O safbwynt Hyfforddiant Mewn Swydd, nododd y Pennaeth Addysg mai mater i ysgolion fydd adnabod yr angen. Awgrymwyd y gall pob dalgylch adnabod arbenigedd arweiniol o fewn y dalgylch i rannu arferion dda a bod angen manylu ar hyn.

(b) GAD – Nodwyd bod 100% o ddyraniad y grant hwn yn cael ei ddatganoli'n llwyr i ysgolion ar sail £450 y pen i bob disgybl sydd ar y gofrestr prydau ysgol am ddim yn ystod cyfrifiad CYBLD yn Ionawr 2012.

(c) Plant mewn Gofal - Nodwyd y bydd yn ofynnol gweld yn union faint o ddisgyblion mewn gofal sydd ym mhob ysgol i fedru dyrannu'r symiau.

(d) Grant y Gymraeg - Nodwyd bod y grant hwn yn cael ei rannu'n unol â gofynion y Cynllun Strategol Y Gymraeg.

(dd) Grant Ysgolion Uwchradd Band 4/5 - Nodwyd bod grant o £10,000 yn cael ei ddyrannu i'r pum ysgol uwchradd yng Ngwynedd sydd o fewn bandiau 4 a 5 ar gyfer codi safonau

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(i) teimlwyd y dylai'r arian fod mewn lle ac yn weithredol ers 1af Ebrill
(ii) y byddai'n fuddiol derbyn esiamplau o arferion da dalgylchol a'r deilliannau ar gyflawniadau disgyblion.

**Penderfynwyd: Cymeradwyo'r dyraniadau a'r dulliau gweithredu.**

## 9. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Addysg yn cyflwyno Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer yr Ysgolion.

Adroddwyd ar y cytundebau unigol fel a ganlyn:

(a) Cynnal a Chadw Ysgolion Uwchradd - atgoffodd yr Uwch Reolwr Addysg y rhoddwyd estyniad i'r cytundeb hwn llynedd am gyfnod o flwyddyn ond bellach cwblhawyd cytundeb newydd gyda chynrychiolaeth o benaethiaid uwchradd wedi rhoi sylwadau arno. O ran newidiadau roedd y ddogfen newydd yn llawer symlach ac o ran cyfrifoldebau penodol, yr unig newid ydoedd bod y Cyngor yn gyfrifol am gyllido gwaredu asbestos o loriau pan fo'r ysgol yn dymuno gosod gorchudd llawr newydd. Cyfeiriwyd at un cyfeiriad e-bost ac un rhif ffôn ar gyfer ymholiadau a fydd yn symleiddio'r broses i Benaethiaid.

(b) Y Tîm Gwybyddiaeth a Dysgu - nododd y Pennaeth Addysg bod y cytundeb wedi ei gyflwyno i gyfarfod y GYDCA yn ddiweddar a thynnwyd sylw'r Fforwm os yw ysgolion yn eithrio o'r cytundeb ei bod yn ofynnol i ymgymryd â gwaith monitro allanol ar yr ysgol yn y maes hwn.

(c) Integreiddio - Gofynnir am ymestyn y cytundeb yma am flwyddyn arall heb newidiadau.

(ch) Clerc Llywodraethwyr - Nododd yr Uwch Reolwr Addysg bod gofyn o'r newydd i awdurdodau sefydlu gwasanaeth clercio llywodraethwyr i'r ysgolion fyddai'n dymuno ei dderbyn. Ni welir llawer o alw am y gwasanaeth gan fod mwyafrif o'r ysgolion gyda Chlerc Llywodraethol yn barod. Mae cost y gytundeb o £800 yn cymryd i ystyriaeth cyflogi clerc a chostau ychwanegol sydd ynghlwm i hysbysebu, hyfforddi, gweinyddu lleoliadau clercod a threfnu clercod llanw wrth redeg y gwasanaeth canolog.

**Penderfynwyd: Cymeradwyo'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth uchod.**

## 10. CYNYDDU DATGANOLI

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Addysg ynghylch datganoli gwasanaethau ychwanegol i ysgolion.

Awgrymodd y Rheolwr Cyllid Datblygu i'r Fforwm ohirio trafod cynnwys yr adroddiad oherwydd bod ymholiadau cyfreithiol yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd ynglŷn â datganoli cyllidebau canolog.

**Penderfynwyd: Gohirio ystyried datganoli mwy o gyfrifoldebau i ysgolion hyd nes y derbynnir eglurdeb cyfreithiol.**

**11. UNRHYW FATER ARALL - ADRODDIAD ROBERT HILL GOMISIYNWYD GAN Y GWEINIDOG DROS ADDYSG**

Cymerodd y Pennaeth Addysg y cyfle i dynnu sylw at gynnwys yr adroddiad uchod a gomisiynwyd gan y Gweinidog Addysg. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhannu fel a ganlyn:

1. Gwella dysgu ac addysgu
2. Cryfhau Arweinyddiaeth
3. Meithrin Rhagor o bartneriaeth rhwng ysgolion
4. Gwella Atebolrwydd y sustem
5. Be ydi'r opsiynau o ran maes gwella ysgolion

Roedd cyfanswm o 182 o opsiynau gwahanol o fewn y ddogfen ar gyfer ymgynghori erbyn 13 Medi 2013.

Nodwyd enghreifftiau o'r hyn i'w gyflawni o fewn Is-adrannau'r adroddiad yn y tymor byr a thymor canolig:

| **Tymor Byr** | **Tymor Canolig** |
|---|---|
| Fframwaith Rhifedd, Llythrennedd<br>Sustem Tracio<br>Cymraeg<br>Hyfforddi Arweinwyr | Cynyddu ysgolion sydd yn cael eu hadnabod fel ymarferwyr arweiniol<br>Pa mor dda mae ysgolion yn defnyddio grantiau |
| Sefydlu Byrddau Datblygu Arweinyddiaeth (ar draws y gogledd) - (grym i gomisiynu'r ysgolion gorau i ddarparu hyfforddiant) | Dirprwyo lefel uwch o grantiau i ysgolion sydd yn gweithio drwy ffederasiwn |
| Trywydd clir i adnabod cydweithio drwy bartneriaethau ffurfiol – rhannu arferion da | Dyrannu arian cyfalaf drwy ffederasiwn. |
| Sefydlu cymhelliant ariannol ar gyfer helpu ysgolion gwan | Gweithio gydag awdurdodau i safoni fformiwla dyrannu |
| Dirprwyo dyraniad o grantiau'r Llywodraeth i'r ysgolion sydd yn dda neu'n well heb orfod cynllunio | |
| Templed cenedlaethol ar gyfer Cytundeb Lefel Gwasanaeth | |
| Parhau gyda'r sustem bandio | |

| | |
|---|---|
| Arolygu ysgolion ar sail fwy cymesur – llai o rybudd 2/3 diwrnod gwaith | Gweithio gyda CBI Cymru i ddatblygu ac adnabod unigolion i recriwtio |
| Gwaredu oddeutu traean o wasanaethau awdurdodau lleol | |
| Ariannu Consortia yn uniongyrchol Cyflwyno set safonol o swyddogaethau | |

Byddir yn codi ymwybyddiaeth ysgolion o gynnwys yr adroddiad ac i dderbyn sylwadau. Nodwyd bod llawer iawn o'r elfennau ar waith yn barod ond byddai angen mynd drwy'r adroddiad yn fanylach. Fe gyflwynir yr adroddiad i'r Cabinet maes o law fel bo modd i'r Cyngor ymateb yn ffurfiol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**12. DYDDIADAU CYFARFODYDD NESAF**

**Penderfynwyd: Nodi'r dyddiadau canlynol ar gyfer Cyfarfodydd nesaf y Fforwm:**

**19 Tachwedd 2013**
**20 Chwefror 2014**

**<u>CADEIRYDD</u>**